# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## SLC(3) 24-08 (p1)

**Dyddiad : 04 Tachwedd 2008**
**Amser : 8.15am - 9.15am**
**Lleoliad : Ystafell Bwyllgora 3, y Sened**

**d**

### Teitl: Darpariaethau pwerau dirprwyedig Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) 200-

1. O dan Reol Sefydlog 15.6(ii), caiff y pwyllgor ystyried pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r darpariaethau is-ddeddfwriaeth yn y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) (fel y'i cyflwynwyd) er mwyn i'r pwyllgor eu hystyried.

### Diben y Mesur arfaethedig

2. Mesur yw hwn "i wneud darpariaeth ynglŷn â threfniadau gan awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill yng Nghymru i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer eu swyddogaethau; i wneud darpariaeth ar gyfer strategaethau cymunedol; ac at ddibenion cysylltiedig" (Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) - teitl hir y Mesur fel y'i cyflwynwyd). Mae gwreiddiau'r Mesur yn natganiad polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru, "Rhannu Cyfrifoldeb". Y nod yw diwygio'r gyfundrefn gwerth gorau drwy ei disodli â chyfundrefn sy'n adlewyrchu'n well y dull ehangach (anstatudol) a geir ar hyn o bryd yn Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, ynghyd â chryfhau cynllunio cymunedol.

3.  Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys y darpariaethau a ganlyn:

rhoi dyletswyddau ar awdurdodau gwella Cymreig i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer eu swyddogaethau o ran effeithiolrwydd strategol, ansawdd gwasanaethau, argaeledd gwasanaethau, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac arloesi. Diffinnir awdurdod gwella Cymreig yn gyngor sir neu'n gyngor bwrdeistref sirol, yn awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru, neu'n awdurdod tân ac achub Cymreig. Mae'r camau gwella i'w mesur yn ôl ffactorau a safonau ("dangosyddion gwella" a "safonau perfformiad") a bennir, drwy orchymyn, gan Weinidogion Cymru.

rhaid i bob awdurdod gwella Cymreig osod amcanion iddo'i hun - "amcanion gwella" - i wella'r modd y mae'n arfer ei swyddogaethau o ran un o'r canlynol o leiaf: effeithiolrwydd strategol, ansawdd gwasanaethau, argaeledd gwasanaethau, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac arloesi.

wrth benderfynu sut i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol a'r amcanion gwella, rhaid i bob awdurdod gwella Cymreig ymgynghori â chynrychiolwyr penodol, a rhoi ystyriaeth i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru wrth wneud hynny.

galluogi awdurdodau gwella Cymreig i gydlafurio â'i gilydd er mwyn gwella ynghyd â rhoi pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd ar hyn os yw'n angenrheidiol.

ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gwella Cymreig gasglu gwybodaeth er mwyn asesu a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei amcanion gwella a galluogi'r awdurdod i ddefnyddio data o'r fath i roi gwybod i ddinasyddion a chymunedau am ei berfformiad.

sicrhau mwy o gydlafurio rhwng y rheoleiddwyr perthnasol er mwyn cael y gwerth mwyaf posibl a lleihau'r baich. Diffinnir "rheoleiddiwr perthnasol" fel a ganlyn: Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru; Gweinidogion Cymru wrth arfer swyddogaethau penodol o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau Cymunedol) 2003; personau penodol a benodwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004; Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac archwilydd sydd wedi ei benodi o dan adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

galluogi Gweinidogion Cymru i gynorthwyo awdurdodau gwella Cymreig i wella, ac ymyrryd pan fydd hynny'n angenrheidiol.

rhoi pwerau ychwanegol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal arolygiad o awdurdod gwella Cymreig pan fydd yr Archwilydd Cyffredinol neu unrhyw un o'r rheoleiddwyr perthnasol yn credu y gall awdurdod perthnasol fethu â chydymffurfio â'r gofyniad i wella a llunio adroddiad ar gyfer pob arolygiad arbennig a gynhelir. Mae dyletswydd ar yr holl reoleiddwyr perthnasol i roi sylw i'r angen am gydlynu wrth arfer swyddogaethau rheoleiddio.

ei gwneud yn ddyletswydd gyffredin ar ddarparwyr gwasanaethau lleol, e.e. awdurdodau gwella Cymreig, cynghorau cymuned, byrddau iechyd lleol ymddiriedolaethau'r GIG, awdurdod yr heddlu a phrif gwnstabl awdurdod heddlu i gyfrannu at "gynllunio cymunedol" a llunio strategaeth gymunedol.

### Pwerau a gweithdrefnau gwneud is-ddeddfwriaeth

4.  Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys nifer sylweddol o ddarpariaethau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys cyfanswm o **9** pŵer i wneud gorchmynion, gyda **3** ohonynt i ddilyn y weithdrefn negyddol, **3** ohonynt i ddilyn y weithdrefn gadarnhaol ac **1** ohonynt i ddilyn y weithdrefn 'uwch-gadarnhaol'. Bydd gorchmynion sy'n cynnwys

darpariaethau canlyniadol, darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed neu orchmynion sy'n diwygio neu'n diddymu Deddfau, Mesur neu is-ddeddfwriaeth yn dilyn y weithdrefn benodol a bennir yn adran 51. Ni fydd gorchmynion cychwyn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn. At hynny, mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys **4** pŵer cyfarwyddo ac mae **6** o ddarpariaethau yn cynnwys pwerau i ddyroddi canllawiau.

## Gorchmynion

5. Rhoddir pwerau i wneud gorchmynion mewn perthynas â'r canlynol:-

Dyletswydd gyffredinol mewn perthynas â gwella:

Mae **Adran 7** yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu categorïau at yr elfennau ar gyfer gwella a nodir yn adran 4(2), eu diwygio neu eu hepgor, e.e. effeithiolrwydd gwasanaethau, ansawdd gwasanaethau, argaeledd gwasanaethau, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac arloesi, ac i amrywio neu hepgor paragraffau ychwanegol o'r fath.

Y weithdrefn: Cadarnhaol - caiff hyn ei gyfiawnhau yn y Memorandwm Esboniadol gan y gallai gorchymyn a wneir o dan yr adran hon ail-lunio neu ymestyn ffocws strategol awdurdodau yn ei hanfod.

Dangosyddion perfformiad a safonau:

Mae **Adran 8** yn rhoi i Weinidogion Cymru bŵer i bennu, drwy orchymyn, ffactorau perfformiad (dangosyddion perfformiad) y gellir eu defnyddio i fesur perfformiad awdurdod gwella Cymreig.

Yn ogystal â hynny, gall Gweinidogion Cymru bennu safonau (safonau perfformiad) mewn perthynas â'r dangosyddion perfformiad a bennwyd ganddynt hwy.

Mae'r Mesur hefyd yn rhoi i Weinidogion Cymru y disgresiwn i bennu gwahanol ddangosyddion perfformiad a gwahanol safonau perfformiad ar gyfer gwahanol awdurdodau neu fathau o awdurdodau.

Y weithdrefn: Negyddol - caiff hyn ei gyfiawnhau yn y Memorandwm Esboniadol gan y byddai a wnelo gorchymyn o'r fath â diffiniadau manwl dangosyddion a safonau perfformiad yn unig. Bydd y rhain, o reidrwydd, yn newid dros amser i adlewyrchu newidiadau ehangach yn y gyfraith, polisi ac arferion proffesiynol yn gysylltiedig â gwasanaethau llywodraeth leol. Bydd y pwerau hyn hefyd yn disodli pwerau cyfatebol yn Neddf Llywodraeth Leol 1999 (a gaiff ei diddymu gan y Mesur hwn).

Cyhoeddi gwybodaeth ynghylch y gwelliannau:

Bwriad y Mesur arfaethedig yw disodli'r cysyniad o lunio cynllun perfformiad gwerth gorau a llunio Cynllun Gwella yn ei le.

Mae awdurdodau yn ymrwymedig i baratoi a chyhoeddi gwybodaeth benodedig erbyn dyddiadau a bennwyd. Mae **Adran 15** yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddiwygio'r dyddiadau hyn.

Y weithdrefn: Negyddol - caiff hyn ei gyfiawnhau yn y Memorandwm Esboniadol gan na fyddai'n gwneud dim ond diwygio darpariaethau gweinyddol.

Asesu ac archwilio:

Ceir llawer o ddarpariaethau yn y Mesur ynglŷn ag archwilio, rheoleiddio ac arolygu awdurdodau lleol ac ynglŷn â rôl yr amryw gyrff sy'n gyfrifol am wneud gwaith o'r fath. Mae'n cynnwys yn benodol ddarpariaethau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol iddynt gydlynu eu gweithgareddau ym mhob awdurdod lleol a chynorthwyo Archwilydd Cyffredinol Cymru wrth iddo lunio casgliadau cyffredinol ynghylch i ba raddau y mae awdurdod lleol wedi gwella ac i ba raddau y gallai barhau i wella. Y cyrff rheoleiddio ac arolygu sy'n berthnasol o dan y darpariaethau hyn yw:-

Archwilydd Cyffredinol Cymru;

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn);

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru neu unrhyw berson a awdurdodir i arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003;

Bwrdd yr Iaith Gymraeg;

Arolygydd tân, arolygydd cynorthwyol neu unrhyw swyddog arall a benodir o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004;

Unrhyw gorff arall sy'n gyfrifol am archwilio, rheoleiddio neu arolygu'r awdurdodau perthnasol a/neu'r gwasanaethau y maent yn eu darparu a fydd wedi'u pennu gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

Mae **Adran 16** yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu at y cyrff a restrir, gan gynnwys ychwanegu cyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio, rheoleiddio neu arolygu awdurdodau perthnasol ac/neu'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Y weithdrefn: Cadarnhaol - caiff hyn ei gyfiawnhau yn y Memorandwm Esboniadol gan y byddai gorchymyn o'r fath yn gwneud newidiadau i destun y Mesur ac yn rhoi dyletswyddau yn uniongyrchol ar gyrff archwilio, rheoleiddio neu arolygu a enwyd.

Archwilio

Y bwriad yw na ddylai archwilwyr fod yn gyfrifol bellach am ymgymryd ag unrhyw archwiliad ac eithrio'r archwiliad o gyfrifon yr awdurdod perthnasol o dan adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ond dylent fod yn gyfrifol am archwilio pob awdurdod perthnasol er mwyn gwirio a yw wedi cydymffurfio â darpariaethau'r Mesur mewn perthynas â chyhoeddi gwybodaeth benodedig ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig. Rhaid i'r archwiliad hwn gael ei gynnal yn flynyddol a dylid paratoi adroddiad ar sail yr archwiliad. Y bwriad yw y dylai adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru gael ei gyflwyno erbyn 31 Tachwedd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r cynllun yn berthnasol iddi. Mae **Adran 20** yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r dyddiad hwn drwy orchymyn.

Y weithdrefn: Negyddol - caiff hyn ei gyfiawnhau yn y Memorandwm Esboniadol gan mai materion gweinyddol yn unig sydd dan sylw, megis y dyddiad ar gyfer cyflwyno adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

Addasu deddfiadau a rhoi pwerau newydd:

Mae Adran 32 yn rhoi i Weinidogion Cymru bŵer i wneud darpariaeth i addasu neu i ddatgymhwyso deddfiadau sy'n gymwys i awdurdodau gwella. Er mwyn arfer y pwerau hyn, rhaid i Weinidogion Cymru fod yn fodlon bod deddfiad o'r fath yn atal neu'n rhwystro awdurdod gwella Cymreig rhag cydymffurfio â darpariaethau Rhan 1 o'r Mesur. Mae'r adran hefyd yn cynnwys pŵer i roi i awdurdod gwella Cymreig unrhyw bŵer ychwanegol a ystyrir yn angenrheidiol i hwyluso cydymffurfio â Rhan 1 o'r Mesur.

Y weithdrefn: 'Uwch-gadarnhaol': mae **Adran 33** yn pennu gweithdrefn arbennig sydd yn berthnasol i orchmynion a wneir o dan adran 32. Ni ddylid gosod gerbron y Cynulliad orchymyn drafft sy'n cynnwys cynigion o dan adran 32 (ar gyfer dadl) oni bai bod drafft sy'n cynnwys y cynigion hynny wedi'i osod gerbron y Cynulliad eisoes am gyfnod o drigain niwrnod a bod y sylwadau a gyflwynwyd yn y cyfnod a grybwyllwyd o drigain niwrnod wedi'u hystyried. Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â llywodraeth leol a'i gwasanaethau yn eang iawn a nodir yn y Memorandwm Esboniadol fod angen y pwerau hyn i ddelio ag unrhyw beth annisgwyl a fyddai'n rhwystro ac yn atal awdurdodau rhag cyflawni eu dyletswydd hollbwysig o wneud gwelliannau fel y nodir yn Rhan 1 o'r Mesur. Gan hynny, mae'r pwerau yn adrannau 32 a 33 yn eang eu cwmpas a gallent ddiwygio Deddfau a Mesurau. Ar y sail hon, mae'r Llywodraeth yn ystyried bod modd cyfiawnhau defnyddio'r weithdrefn 'uwch-gadarnhaol'. Mae pwerau tebyg yn bodoli ar hyn o bryd yn Neddf Llywodraeth Leol 1999 (adrannau 17A ac 17B) a fyddai'n cael ei diddymu a'i disodli gan y Mesur arfaethedig.

Cynllunio cymunedol - partneriaid

Mae'r Mesur yn ei gwneud hi'n ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus perthnasol i fod yn rhan o'r gwaith ar gynllunio cymunedol. Y cyrff a restrir yn y Mesur arfaethedig yw:-

Awdurdodau lleol

Awdurdodau tân ac achub

Awdurdodau'r heddlu

Prif Gwnstabl awdurdod heddlu

Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (lle bo'n berthnasol)

Cynghorau tref a chymuned

Byrddau iechyd lleol

Ymddiriedolaethau'r GIG (sydd wedi'u pennu mewn perthynas ag ardal yr awdurdod drwy gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru).

Mae **Adran 38** yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr hon.

Y weithdrefn: Cadarnhaol - caiff hyn ei gyfiawnhau yn y Memorandwm Esboniadol gan y byddai gorchymyn o'r fath yn creu dyletswydd newydd sylweddol i'w chyflawni gan gorff cyhoeddus sydd â swyddogaethau cyhoeddus eu natur.

Diwygiadau canlyniadol etc a darpariaeth drosiannol ac arbed

Mae **Adran 51** yn rhoi i Weinidogion Cymru bŵer drwy orchymyn i ddiwygio, diddymu neu ddirymu deddfiadau at ddibenion gwneud diwygiadau canlyniadol er mwyn gweithredu'n llawn unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Mesur.

Y gweithdrefnau:-

Bydd gorchmynion a wneir o dan adrannau 8, 15 neu 20 yn dilyn y weithdrefn negyddol.

Bydd gorchmynion a wneir o dan adrannau 7, 16 neu 38 yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol.

Bydd gorchmynion sy'n cynnwys darpariaethau canlyniadol etc a wneir o dan adran 51 fel arfer yn dilyn y weithdrefn negyddol, ac eithrio gorchmynion sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf neu Fesur; bydd y gorchmynion hynny'n dilyn y weithdrefn gadarnhaol.

Caiff y gweithdrefnau sydd i'w dilyn eu cyfiawnhau yn y Memorandwm Esboniadol gan eu bod yn dilyn y weithdrefn neu'r gweithdrefnau a dderbyniwyd ar gyfer achosion o'r fath.

Cychwyn:

Ac eithrio’r adrannau y nodir y byddant yn dod i rym ar y diwrnod y caiff y Mesur ei gymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn Ei Chyngor, daw darpariaethau’r Mesur i rym ar y diwrnod neu’r diwrnodau a bennir drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Y weithdrefn: fel sy’n arferol yn achos gorchmynion cychwyn, ni fydd gweithdrefn yn gymwys i orchmynion o’r fath.

### Rheoliadau

6. Dim ond **1** darpariaeth sydd yn y Mesur sy’n rhoi pŵer i wneud rheoliadau.

Gweinidogion Cymru - pwerau cyfarwyddo etc

Mae **Adran 30** yn cynnwys pwerau y gall Gweinidogion Cymru eu harfer er mwyn rhoi cyfarwyddyd i awdurdod lleol sy’n methu â chydymffurfio â’r Mesur neu sydd mewn perygl o wneud hynny. Mae’r adran hon hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau drwy reoliadau. Bydd y darpariaethau’n ymwneud â deddfiad sy’n rhoi i Weinidogion Cymru swyddogaeth mewn perthynas ag awdurdod gwella Cymreig - ac y bernir ei bod yn angenrheidiol neu’n hwylus gwneud hyn at ddibenion rhoi cyfarwyddyd o dan adran 30(6). (Os yw swyddogaeth benodedig awdurdod i gael ei harfer gan Weinidogion Cymru neu berson a enwebwyd ganddynt am gyfnod sydd wedi ei bennu, rhaid i'r awdurdod gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau gan Weinidogion Cymru neu berson a enwebwyd ganddynt mewn perthynas ag arfer y swyddogaeth honno).

Y weithdrefn - Negyddol - ni roddir cyfiawnhad dros y weithdrefn hon yn y Memorandwm Esboniadol.

### Cyfarwyddo

7. Mae’r pwerau i roi cyfarwyddyd wedi’u cynnwys yn yr adrannau hyn:-

**Adran 20** - rhoi cyfarwyddyd i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal arolygiad o gydymffurfiad awdurdod gwella Cymreig:

**Adran 30** - rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau sy’n methu â chydymffurfio â’r Mesur neu sydd mewn perygl o wneud hynny;

**Adran 31** - rhoi cyfarwyddyd i ymrwymo i drefniadau cydlafurio penodedig;

**Adran 49** - gofyniad bod unrhyw gyfarwyddyd a roddir o dan y Mesur yn cael ei roi mewn ysgrifen ac y caniateir iddo gael ei amrywio neu ei ddirymu gan gyfarwyddyd diweddarach.

### Canllawiau

8. Mae’r Mesur hefyd yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau mewn perthynas â’r adrannau hyn:-

**Adran 6** - cyflawni’r ddyletswydd gyffredinol i wella ac ymgynghori ynghylch hynny;

**Adran 14** - defnyddio gwybodaeth am berfformiad;

**Adran 15** - cynllunio gwelliannau a chyhoeddi gwybodaeth am welliannau;

**Adran 22** - arolygiadau arbennig gan Archwilydd Cyffredinol Cymru;

**Adran 45** - cynllunio cymunedol;

**Adran 48** - darparu bod modd i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau gwahanol i gyrff gwahanol, a darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, cyn dyroddi canllawiau, ymgynghori â’r awdurdod neu’r partïon o dan sylw neu’r rhai y mae’n ymddangos sy’n eu cynrychioli, a darparu bod rhaid cyhoeddi unrhyw ganllawiau o’r fath.

### Rheol Sefydlog 15.6

9. Mae Rheol Sefydlog 15.6(ii) yn darparu y gall y pwyllgor ystyried y canlynol a chyhoeddi adroddiadau arnynt:

""pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig …sy’n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru …”"

Wrth ystyried pa mor briodol yw pwerau a ddirprwyir i Weinidogion Cymru, efallai y bydd y pwyllgor am nodi’r canlynol:

Mae gofyn i Weinidogion Cymru gynnal **ymgynghoriad** mewn perthynas â gorchmynion a wneir o dan yr adrannau hyn:-

Adran 8 (dangosyddion perfformiad a safonau perfformiad) - cyn pennu dangosyddion perfformiad neu safonau perfformiad, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phersonau y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn cynrychioli'r awdurdodau o dan sylw ac unrhyw bersonau eraill y gwelant yn dda

Adran 31 (pwerau cyfarwyddo: trefniadau cydlafurio) - os bydd Gweinidogion Cymru yn bwriadu arfer eu pŵer i roi cyfarwyddyd o dan yr adran hon, rhaid iddynt yn gyntaf ymgynghori â’r awdurdod y bwriedir rhoi cyfarwyddyd iddo

Adran 33 (gorchmynion o dan adran 32: y weithdrefn) - mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ag unrhyw awdurdodau neu bersonau y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau yr effeithir arnynt gan orchymyn y bwriadant ei wneud o dan adran 32 (addasu deddfiadau a rhoi pwerau newydd)

Adran 38 (ystyr "partneriaid cynllunio cymunedol") - cyn diwygio'r partneriaid cynllunio cymunedol a nodir yn is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw berson y maent yn bwriadu ei gynnwys, unrhyw gynrychiolwyr awdurdodau lleol yng Nghymru y maent yn eu hystyried yn briodol ac unrhyw gynrychiolwyr partneriaid cynllunio cymunedol y maent yn eu hystyried yn briodol.

Adran 48 (canllawiau) - cyn dyroddi canllawiau, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdod neu'r partïon o dan sylw neu'r rhai y mae'n ymddangos sy'n eu cynrychioli.

### Camau i'r pwyllgor eu cymryd

Gwahoddir y pwyllgor i ystyried a yw'n dymuno rhoi ystyriaeth bellach i'r pwerau sydd i'w rhoi i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth yn y Mesur arfaethedig hwn, a sut y mae'n dymuno ystyried y rheini, o dan Reol Sefydlog 15.6(ii).

Cynghorwyr Cyfreithiol
Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad
4 Tachwedd 2008